Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PYSGODFA GOCOS TRAETH LAFAN 2026

# DATGANIAD CAU

### wedi'i gyhoeddi yn unol â

### Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

**MAE GWEINIDOGION** Cymru, yn unol ag erthygl 7 o *Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024*, yn **datgan** bod y gwelyau cocos yn yr ardal a ddiffinnir isod ("yr Ardal") **ar gau**at ddibenion pysgota am gocos neu gymryd cocos o **00:01 ar 31 Mawrth 2026** ymlaen.

**Rheswm:** Mae tystiolaeth bod y gornifer cocos y gellir eu cynaeafu wedi'i gasglu.

**Yr Ardal**


Mae'r Ardal sydd wedi'i chau gan yr hysbysiad hwn wedi'i hamgáu gan linell a dynnir rhwng y safleoedd canlynol, fel y'u disgrifir—

I. llinell syth o ledred 53˚13'.84G, hydred 004˚04'.53Gn, cyfeirnod map SH 6157 7241 i ledred 53˚15'.15G, hydred 004˚05'.17Gn, cyfeirnod map SH 6092 7486;
II. llinell syth o ledred 53˚15'.15G, hydred 004˚05'.17Gn, cyfeirnod map SH 6092 7486 i ledred 53˚16'.15G, hydred 003˚59'.46Gn, cyfeirnod map SH 6732 7654;
III. llinell syth o ledred 53˚16'.15G, hydred 003˚59'.46Gn, cyfeirnod map SH 6732 7654 i ledred 53˚15'.59G, hydred 003˚58'.81Gn, cyfeirnod map SH 6801 7548;
IV. ar hyd llinell y Penllanwau Astronomaidd o ledred 53˚15'.59G, hydred 003˚58'.81Gn, cyfeirnod map SH 6801 7548 i ledred 53˚13'.84G, hydred 004˚04'.53Gn, cyfeirnod map SH 6157 7241.

Rhoddir yr Hysbysiad hwn o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad yr Hysbysiad: 30 Mawrth 2026

At ddibenion gwybodaeth yn unig, dangosir yr Ardal wedi'i hamlinellu mewn du ar y map isod:




## RHAGOR O WYBODAETH

I weld rhagor o hysbysiadau a chael rhagor o wybodaeth am gau'r gwelyau hyn, cysylltwch â:

Swyddfa Pysgodfeydd Aberdaugleddau
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court
Parc Busnes Haven’s Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3LS

Rhif ffôn: 0300 025 3500
E-bost: Pysgodfeydd@llyw.cymru